PET(4) WPI 57
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Elenid Jones

[redacted]

Ms.Abigail Phillips

Clerc y Pwyllgor Deisebu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Annwyl Ms.Abigail Phillips

Ysgrifennaf atoch fel Cadeirydd Adran Dinasyddaieth Gristnogol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Yr ydym fel Adran yn llwyr gefnogi cael Sefydliad Heddwch i Gymru. Y mae gennym ni yng Nghymru draddodiad balch o ymgyrchu dros heddwch o ddyddiau Henry Richard ymlaen, a byddai cael cael Sefydliad Heddwch yn arwydd clir o'n hawydd, fel cenedl fach, i hybu cyfiawnder a heddwch ar draws y byd.

Credwn y dylai Sefydliad Heddwch ddod ag ystod eang o fudiadau at ei gilydd megis Cymorth Cristnogol, Oxfam Cymru, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, heb anghofio chwaith gynrychiolaeth o blith y fyddin sydd yn gorfod wynebu perygl a marwolaeth pan aiff gwledydd i ryfel. Buasai presenoldeb adrannau prifysgol, megis Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth a Chanolfan David Davies yn ychwanegu at hygrededd academig y Sefydliad a buasai cynrychiolaeth o blith eglwysi a chymunedau aml-ffydd yn rhoi iddo rym a dyfnder moesol.

Ni welwn unrhyw rwystrau a allai ei gwneud yn anodd creu Sefydliad Heddwch i Gymru, ac yr y yn llwyr gefnogi'r ddeiseb. Awgrymwn hefyd mai esgus gwan fyddai pledio prinder arian yn y presennol o gyni, gan mor bwysig fyddai cyfraniad Sefydliad o'r fath o fewn, a'r tu hwnt, i ffiniau Cymru.

Yr eiddoch yn gywir

A.Elenid Jones

Cadeirydd Adran Dinasyddiaeth Gristnogol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg